

COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

Y CABINET

DYDD MAWRTH, 25 EBRILL 2023

Cabinet Members:

Cynghorwyr:: S.K.Hunt (Cadeirydd), S.A.Knoyle, N.Jenkins, J.Hurley,
S.Harris, J.Hale, A.Llewelyn, W.F.Griffiths a/ac S.Jones

Swyddogion yn bresennol:

K.Jones, M.Shaw, C.Furlow-Harris, H.Jones, L. McAndrew, A.Thomas a/ac
T.Davies

Cadeirydd y Pwyllgor Craffu: Cynghorwyr P.Rogers

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S K Hunt yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Cabinet, a gynhaliwyd ar 5 Ebrill 2023, fel cofnod cywir.

5. **AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS**

Ni dderbyniwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

6. **STRATEGAETH GWRTH-DWYLL A GWRTH-LYGREDD DIWYGIEDIG**

Penderfynwyd:

Cymeradwyo'r Strategaeth Gwrth-dwyll a Gwrth-lygredd Diwygiedig, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Rheswm dros y Penderfyniad:

Sicrhau bod gan y cyngor strategaeth gyfredol.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

7. **STRATEGAETH CYFRANOGIAD Y CYHOEDD DDRAFFT 2023-2028**

Derbyniodd yr Aelodau atodiad i'r adroddiad a ddosbarthwyd, yn cynnwys gwybodaeth wedi'i diweddarau am y Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd ddrafft ar gyfer y cyfnod 2023-2028, a ystyriwyd yn ystod y drafodaeth yn y cyfarfod.

Penderfyniad:

Cyflwyno'r Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd ddrafft ar gyfer y cyfnod 2023-2028, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, ac yn yr atodiad i'r adroddiad a ddosbarthwyd, i'r cyngor i'w fabwysiadu.

Rheswm dros y Penderfyniad:

Sicrhau bod y cyngor yn cyflawni dyletswyddau cyfreithiol a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 gan eu bod yn ymwneud â gweithgareddau cyfranogiad y cyngor.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar unwaith - cytunwyd ar y camau gweithredu hyn gan y Cadeirydd Craffu. Ni fyddai unrhyw gyfnod galw i mewn ar gyfer y ritem hon.

Ymgynghoriad:

Bu'r eitem hon yn destun ymgynghoriad allanol.

8. CYNLLUN CORFFORAETHOL - RHAGLEN NEWID STRATEGOL AR GYFER Y CYFNOD O 2023-2024

Ystyriwyd y drafodaeth gan y Pwyllgor Craffu blaenorol, a chytunodd y Cabinet ar yr argymhellion ychwanegol a gyflwynwyd, fel y nodir mewn pwyntiau bwled isod.

Penderfyniadau:

1. Cyflwyno'r Rhaglen Newid Strategol diwygiedig ar gyfer y cyfnod 2023-2024, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, i'r cyngor i'w fabwysiadu, ar yr amod y gwneir y newidiadau canlynol i'r adroddiad, cyn cyfarfod y cyngor:
 - Ehangu'r cyfeiriad at Newid yn yr Hinsawdd ar dudalen 133 o'r adroddiad a ddosbarthwyd, i adlewyrchu'r cynnig Newid yn yr Hinsawdd a gymeradwywyd yng nghyfarfod y cyngor yn gynharach y flwyddyn ddinesig hon, a bod yr ymrwymiad hwn yn cael ei ailadrodd ar dudalen 134 yr adroddiad a ddosbarthwyd, i danlinellu'r ymrwymiad i hyrwyddo'r gwaith hwn yn y flwyddyn ddinesig hon, nes y bydd adolygiad llawnach o'r cynllun corfforaethol ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2024 ar gael.
 - Diwygio'r cyfeiriad at y 'Cynllun Teithio Llesol' i'r 'Map Rhwydwaith Teithio Llesol', er mwyn rhoi'r teitl cywir iddo.
 - Ailychwanegu'r geiriau 'lleihau'r ddibyniaeth ar gerbydau preifat' a gafodd eu dileu.
 - Mewnosod camau gweithredu ychwanegol o fewn ardal Teithio Llesol y cynllun, i adlewyrchu'r gwaith y bwriedir ei wneud yn 2023/24.
2. Bydd y Pennaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol yn cael awdurdod dirprwyedig, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd a'r Prif Weithredwr, i wneud unrhyw newidiadau pellach sy'n angenrheidiol cyn cyhoeddi'r cynllun terfynol ac nad ydynt yn newid cynnwys y rhaglen yn sylweddol.

Rheswm dros y Penderfyniadau:

Sicrhau bod y diwygiadau a wnaed i adran Rhaglen Newid Strategol y Cynllun Corfforaethol yn cael eu cymeradwyo, gan gyflawni dyletswyddau cyfreithiol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan eu bod yn berthnasol i weithgareddau cynllunio corfforaethol y cyngor.

Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar unwaith - cytunwyd ar y camau gweithredu hyn gan y Cadeirydd Craffu. Ni fyddai unrhyw gyfnod galw i mewn ar gyfer yr eitem hon.

9. **EITEMAU BRYD**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

CADEIRYDD